



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth / Headteacher: Mr Gareth L James

Gwaith adeiladu – trefniadau traffig **dydd Llun 5^{ed} o Hydref**

Annwyl rieni a gwarcheidwaid,

Hoffwn eich hysbysu am drefniadau traffig ychwanegol a fydd ar waith o amgylch yr ysgol ar **ddydd Llun, 5^{ed} o Hydref 2026**, oherwydd gwaith ar y safle adeiladu.

Bydd Wynne Construction yn **arllwys slab concrit llawr gwaelod yr adeilad newydd** ar y diwrnod hwn. Mae arllwys slab concrit o'r maint hwn yn golygu bod angen cyflenwad parhaus o goncrit drwy gydol y gwaith, rhag i'r concrit ddechrau sychu. O ganlyniad, bydd lorïau concrit yn mynd i mewn ac allan o'r safle yn gyson drwy gydol y dydd.

Bydd y gwaith yn cychwyn peth cyntaf yn y bore ac, oherwydd nifer a maint y cerbydau a fydd yn defnyddio'r fynedfa, **ni fydd modd i rieni ddod â'u ceir at brif fynedfa'r ysgol ar ddydd Llun**. Bydd y ffordd ar gau i draffig arferol drwy gydol y dydd, ac felly bydd yr un trefniadau yn berthnasol **wrth gasglu plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol**. Os bydd y gwaith yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl a'r ffordd yn ailagor mewn pryd ar gyfer casglu plant, byddaf yn anfon e-bost at rieni i roi gwybod.

Awgrymwn felly fod rhieni sy'n dod â'u plant mewn car yn parcio yn y maes parcio ger Camau Bach ac yn cerdded draw i'r ysgol, neu'n defnyddio maes parcio'r Ganolfan Hamdden. Os oes modd cerdded, beicio neu ddod i'r ysgol heb gar ar y diwrnod hwn, byddai hynny hefyd o gymorth mawr.

Fel rhan o'r Cynllun Rheoli Traffig, bydd cerbydau danfon sy'n gadael y safle yn cael teithio yn groes i gyfeiriad arferol y system unffordd. Bydd y trefniant hwn ar gyfer cerbydau danfon Wynne Construction yn unig. Bydd pob danfoniad yn cael ei gydlynu a'i amserlennu gan Dîm Rheoli'r Safle er mwyn lleihau tagfeydd a sicrhau diogelwch.

Bydd **swyddog rheoli traffig hyfforddedig (banksman)** yn rheoli pob cerbyd adeiladu sy'n mynd i mewn ac allan o'r safle. Bydd y swyddog hefyd yn monitro cerddwyr ac yn atal cerbydau dros dro pan fo angen er mwyn caniatáu i bobl fynd heibio'n ddiogel. Bydd mynediad ar gyfer cerbydau brys yn cael ei gynnal drwy gydol y gwaith.

Gofynnwn i bawb fod yn arbennig o ofalus wrth gerdded yn ardal yr ysgol ar y diwrnod hwn, ac i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau gan staff rheoli traffig y safle.

Ymddiheurwn am yr anghyfleustra. Bydd hwn yn ddiwrnod arbennig o brysur o amgylch y safle, ond mae'r trefniadau hyn yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r gwaith concrit yn ddiogel ac yn effeithiol. Diolch ymlaen llaw am eich amynedd, eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad.

Yn gywir,

Gareth James
Pennaeth
29/09/2026



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth / Headteacher: Mr Gareth L James

Construction work – traffic arrangements for **Monday 5th October**

Dear Parents and Guardians,

I would like to make you aware of additional traffic management arrangements that will be in place around the school on **Monday, 5th October 2026**, due to work taking place on the construction site.

Wynne Construction will be pouring the ground floor concrete slab of the new building on this day. Pouring a concrete slab of this size requires a continuous supply of concrete throughout the works, to prevent the concrete from beginning to dry. As a result, concrete lorries will be entering and leaving the site continuously throughout the day.

The work will begin first thing in the morning and, due to the number and size of vehicles using the entrance, **parents will not be able to bring their cars to the school's main entrance on Monday**. The road will be closed to normal traffic throughout the day, and therefore the same arrangements will apply **when collecting children at the end of the school day**. If the work is completed earlier than expected and the road reopens in time for collection, I will email parents to let you know.

We therefore suggest that parents travelling by car park in the car park near Camau Bach and walk across to the school, or alternatively use the Leisure Centre car park. If families are able to walk, cycle or travel to school without a car on this particular day, this would also be a great help.

As part of the Traffic Management Plan, delivery vehicles leaving the site will be permitted to travel against the normal direction of the one-way system. This arrangement will apply to Wynne Construction delivery vehicles only. All deliveries will be coordinated and scheduled by the Site Management Team to minimise congestion and ensure safety.

A trained banksman will manage all construction vehicles entering and leaving the site. The banksman will also monitor pedestrians and temporarily stop vehicles where necessary to allow people to pass safely. Access for emergency vehicles will be maintained throughout the works.

We ask everyone to take particular care when walking outside the school on this day, and to follow any instructions given by the site's traffic management staff.

We apologise for the inconvenience. This will inevitably be a particularly busy day around the site, but these arrangements are necessary to allow the concrete works to be completed safely and effectively. Thank you in advance for your patience, understanding and cooperation.

Yours sincerely,

Gareth James
Headteacher
29/09/2026